# Dyfeisiau creantinin pwynt gofal i asesu gweithrediad yr arennau cyn defnyddio delweddu CT â chyferbyniad mewnwythiennol

13 Tachwedd 2019

Mae NICE wedi asesu dyfeisiau creatinin pwynt gofal er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid eu defnyddio cyn sganiau CT. Y dyfeisiau yw ABL800 FLEX, i STAT Alinity, StatSensor, ABL90 FLEX PLUS, Dri chem NX500, System Dadanosddi Gwaed epoc a Piccolo Xpress.

Maent yn mesur faint o greatinin sydd yn eich gwaed er mwyn gweld pa mor dda y mae eich arennau yn gweithio (cyfradd hidlo glomerwlaidd amcangyfrifedig, neu eGFR). Mae hyn yn helpu gweithwyr meddygol proffesiynol i benderfynu a yw'n ddiogel i chi gael sgan CT. Weithiau, gall sganiau CT anafu'r arennau oherwydd y cyferbyniad (llifyn) a ddefnyddir, yn enwedig os oes gennych broblemau meddygol eraill.

Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio ABL800 FLEX, i STAT Alinity a StatSensor cyn i chi gael sgan CT sy'n defnyddio cyferbyniad. Ond dim ond os ydych yn wynebu risg uchel y caiff eich arennau eu hanafu a dim ond os oes angen canlyniad eGFR diweddar ar yr ysbyty fel arfer ac nad oes gennych un. Hefyd, mae angen i'r ysbyty fod â rheolau clir ynglŷn â phrofion a gynhelir yn agos at glaf (profion pwynt gofal).

Mae NICE wedi dweud nad oes digon o dystiolaeth i argymell y profion eraill: ABL90 FLEX PLUS, Dri chem NX500, System Dadanosddi Gwaed epoc a Piccolo Xpress, a hynny am nad oes digon o dystiolaeth eu bod yn gywir

ISBN: 978-1-4731-7471-9